**Ymateb Ysgrifenedig i Adroddiad y Pwyllgor Menter a Dysgu ar y Mesur Prentisiaethau, Sgiliau, Plant a Dysgu gan John Griffiths, Dirprwy Weinidog dros Sgiliau**

**13 Mai 2009**

---

Mae'r Mesur Prentisiaethau, Sgiliau, Plant a Dysgu bellach wedi cwblhau ei gam Pwyllgor yn Nhŷ'r Cyffredin ac ailargraffwyd y Mesur diwygiedig ar 31ain Mawrth 2009. Cyflwynir yr Adroddiad a'r Trydydd Darlleniad (a gymerir gyda'i gilydd yn Nhy'r Cyffredin) ar 5ed Mai.

Atgyfnerthu statws, safonau a chyfraddau derbyn cyrsiau Prentisiaethau Modern yw un o brif amcanion ein strategaeth gyffredin 'Sgiliau Sy'n Gweithio i Gymru' ar gyfer cyflogaeth a sgiliau. Mae'r argymhellion yn yr adroddiad yn cyfateb yn agos â'r strategaeth ac rwy'n falch o allu derbyn y rhan fwyaf ohonynt yn sicr.

Wrth dderbyn yr argymhellion, mae'n bleser gennyf nodi bod gwaith sy'n gysylltiedig â llawer ohonynt yn mynd rhagddo er mwyn paratoi i gefnogi'r cymalau o'r Mesur sy'n berthnasol i Gymru. Byddwn yn dechrau ymgynghoriad ffurfiol 13 wythnos yn fuan ar y 'Manyleb o Safonau Prentisiaeth Cymru' (SASW) drafft a fydd yn galluogi i statws newydd Prentisiaethau Modern, a gefnogir gan ddeddfwriaeth, gael ei weithredu erbyn 2011. Mae gwaith wedi dechrau hefyd ar ddatblygu cynnwys 'Cytundeb Prentisiaeth' safonol drafft ar gyfer Cymru a Lloegr. Mae'r gwaith o ail-drwyddedu'r Cynghorau Sgiliau Sector wedi datblygu'n dda ac mae'r Cynghorau Sgiliau Sector wedi nodi eu parodrwydd a'u gallu i barhau i ddarparu Tystysgrifau Prentisiaeth Fodern Cymru, os bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn gofyn am hynny. Wrth gwrs, mae unrhyw gynnydd yn amodol ar gytundeb Seneddol i ddarpariaethau'r Mesur ac yn destun unrhyw ddiwygiadau a gymeradwyir gan y Senedd.

Hoffwn ddiolch i'r pwyllgor am ei gymorth wrth archwilio cymalau Cymreig y Mesur ac am eu hystyriaeth fanwl er mwyn sicrhau'r cadernid deddfwriaethol angenrheidiol i godi statws a safonau Prentisiaethau Modern yng Nghymru.

Isod ceir fy ymateb i argymhellion unigol yr Adroddiad.

## Nodir Ymatebion manwl i argymhellion yr adroddiad isod:

### Safonau Manylebau Prentisiaeth

Croesawaf gefnogaeth y pwyllgor i'n hymagwedd polisi er mwyn sicrhau bod cydbwysedd rhwng cydnawsedd ledled y DU yn safonau fframwaith y Brentisiaeth Fodern a'r hyblygrwydd sy'n ofynnol i ddiwallu anghenion Cymru. O ran y nod o alinio Bagloriaeth Cymru er mwyn galluogi i rai rhannau gyfrif tuag at fframwaith y brentisiaeth, mae'r Pwyllgor yn argymell:

1. Gan fod y nodwedd hon hefyd yn rhan o'n hadroddiad ar y Mesur Prentisiaethau Drafft, gofynnwn i Lywodraeth Cynulliad Cymru roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor ar y cynnydd a wnaed o ran alinio prentisiaethau â Bagloriaeth Cymru.

**Ymateb : Derbyn**

Mae gan Fframweithiau Prentisiaeth Fodern a Chymhwyster Bagloriaeth Cymru (CBC) gynllun strwythurol tebyg ac felly, maent wedi'u halinio'n sylweddol. Mae'r ddau'n adlewyrchu athroniaeth gyffredin i ymestyn dysgu a phrofiad drwy gynnwys nifer o gymwysterau ac elfennau eraill na ellid, ar eu pen eu hunain, eu hardystio na'u hachredu fel arall. Mae hyn yn cynnwys modiwlau datblygu personol a gynlluniwyd i roi ehangder, dyfnder a sgiliau ategol i ddysgwyr.

Gyda dyfodiad cymwysterau sy'n seiliedig ar gredydau a gynigir gan Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru a'r Fframwaith Cymwysterau a Chredydau (QCF), bydd nifer o gyfleoedd ar gyfer alinio agosach rhwng y naill raglen a'r llall yn cynyddu, yn arbennig o ystyried achredu dysgu blaenorol a throsglwyddo credyd rhwng rhaglenni, gan ddileu'r angen i ddysgwyr ddyblygu profiadau dysgu.

Y prif wahaniaeth rhwng y ddau gymhwyster yw y cynlluniwyd CBC fel cwrs dwy flynedd ac mae'n targedu myfyrwyr sy'n astudio llawn amser yn bennaf, tra bod Prentisiaethau Modern yn gymwysterau yn seiliedig ar waith a gyflawnir drwy gymysgedd o ddysgu yn y gwaith ac allan o'r gwaith. Fodd bynnag, anogir Darparwyr Hyfforddiant Dysgu Seiliedig ar Waith i geisio cymeradwyaeth i gynnig dyfarniadau CBC. Hyd yn hyn, mae wyth darparwr Dysgu Seiliedig ar Waith wedi'u cymeradwyo i gyflwyno'r CBC. Felly mae'r cyfleoedd i alinio'r CBC a'r Brentisiaeth Fodern yn gymharol brin drwy ddulliau cyflawni cydamserol.

Fel eithriad, oherwydd bod Prentisiaethau Peirianneg wedi cynnwys blwyddyn gyfan o astudio allan o'r gwaith yn draddodiadol, mewn coleg AB fel llwybr mynediad cyn-prentisiaeth, mae rhai sefydliadau AB eisoes yn cynnig y CBC neu'n bwriadu ei gynnig o fewn y cwrs cyn-brentisiaeth peirianneg. Gallai fframweithiau Prentisiaeth Fodern eraill a gyflwynir gyda chyfnodau sylweddol allan o'r gwaith mewn sefydliadau AB (fel Adeiladu) gynnig cyfleoedd i achredu elfennau o'r CBC. Er enghraifft, ar gyfer anelwyr uchel ar y cynllun peilot Prentisiaethau a Rennir, mae'r darparwr hyfforddiant yn bwriadu cyflwyno'r CBC ochr yn ochr â'r hyfforddiant Prentisiaeth o fis Medi 2009 ymlaen.

Fodd bynnag, ar y cyfan, cyflawnir y rhan fwyaf o'r gwaith alinio rhwng CBC a'r Brentisiaeth Fodern drwy sicrhau bod dysgwyr, darparwyr hyfforddiant, cynghorwyr gyrfaoedd a'r Cyngor Sgiliau Sector yn glir eu meddwl o'r cyfle i drosglwyddo a chyfrif credydau a gyflawnir gan ddysgwyr rhwng y naill gymhwyster a'r llall. Mae hyn yn digwydd eisoes gyda rhai, yn bennaf (ond nid yn unig) gyda darparwyr dysgu yn seiliedig ar waith mewn sefydliadau AB.

Mae data Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru (LLWR) yn nodi, rhwng mis Awst 2003 a mis Mawrth 2009, bod 434 o ddysgwyr unigol naill ai wedi'u cofrestru'n olynol neu ar yr un pryd ar raglenni Prentisiaeth Fodern a CBC.

Caiff Manyleb Safonau Prentisiaeth Cymru eu dosbarthu'n fuan ar gyfer ymgynghoriad ffurfiol. Mae cyflwyniad a nodiadau'r ymgynghoriad yn cyfeirio'n glir at ein nod o alinio CBC a'r Brentisiaeth Fodern yn agosach ac yn cynnwys cwestiynau penodol ynglŷn â sut y gellir cael aliniad agosach drwy ddyluniad y fframwaith, megis cronni a throsglwyddo credydau, elfennau sgiliau, gwybodaeth a chymhwysedd y dylid eu cynnwys mewn 'prif gymhwyster', yn ogystal â chwestiwn uniongyrchol am y gofynion sydd eu hangen i hwyluso hyblygrwydd cynnydd rhwng CBC a'r Brentisiaeth Fodern.

**Goblygiadau Ariannol –** Dim. Tynnir unrhyw gostau ychwanegol o gyllidebau rhaglenni presennol.

**Materion traws-ffiniol**
Nododd y pwyllgor y gallai rhai materion gweithredol sy'n ymwneud â theithio ac ati, roi dysgwyr penodol sy'n cael hyfforddiant yn Lloegr o dan anfantais.

2. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn mynd i'r afael â'r anghysondebau hyn cyn gynted â phosibl er mwyn hwyluso'r broses o gwblhau prentisiaethau'n llwyddiannus yn Lloegr gan gyflogeion o Gymru.

**Ymateb : Derbyn mewn egwyddor**

Derbyniaf yr argymhelliad mewn egwyddor gan fod rhai materion traws-ffiniol sy'n gofyn am ymchwiliad pellach. Fodd bynnag, yn draddodiadol mae cyllid i dalu costau'r hyfforddiant rhwng Cymru a Lloegr wedi'i gwmpasu gan drefniadau cyfatebol a bydd yn parhau felly. Lle y mae dysgwyr unigol yn cael hyfforddiant dros y ffin, yn aml mae'r trefniadau hyn yn cwmpasu gofynion y dysgwyr yn ddigonol.

Lle y mae galw a nodwyd gan Gynghorau Sgiliau Sector ar gyfer fframweithiau Prentisiaeth Fodern newydd sydd ar gael yn Lloegr ac y mae angen iddynt fod ar gael yng Nghymru, mae Cynllun Peilot y Gronfa Blaenoriaethau Sector ar gael i Gynghorau Sgiliau Sector er mwyn sefydlu darpariaeth newydd yng Nghymru. Lle y daw'r galw a nodwyd yn alw profedig drwy weithredu cynllun peilot y Gronfa Blaenoriaethau Sector, yna cyflwynir dulliau i drosglwyddo gweithgaredd peilot i drefniadau cyllid dysgu yn seiliedig ar waith prif ffrwd.

Fodd bynnag, lle y mae dysgwyr yn mynd i gostau teithio mawr neu y mae angen llety arnynt, efallai na fydd y trefniadau ariannu presennol yn ddigonol. Caiff unrhyw newidiadau i hawliadau i gymorth cyllid mewn amgylchiadau eithriadol eu hystyried yn y fanyleb rhaglen ddiwygiedig ar gyfer dysgu seiliedig ar waith ar gyfer y rownd dendro nesaf yn 2011. Fodd bynnag, bydd

angen pennu ystod a chost cyflwyno cyllid newydd i ddiwallu anghenion dysgwyr mewn trefniadau traws-ffiniol er mwyn profi ei fforddiadwyedd.

**Goblygiadau Ariannol** – Byddai cynnig cymorth ychwanegol i hwyluso astudio yn Lloegr yn cael effaith ar gyllideb rhaglen weithredol Dysgu Seiliedig ar Waith.

**Prentisiaethau a Rennir**
Mae'r Pwyllgor yn argymell:

3. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn dosbarthu arferion gorau sy'n dod i'r amlwg drwy'r sector cyhoeddus yn eang o gynlluniau peilot prentisiaethau a rennir er mwyn annog mwy o bobl i ymwneud â'r fenter glodwiw hon.

**Ymateb : Derbyn**

Rwy'n derbyn yr argymhelliad hwn. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru eisoes yn cefnogi'r sector cyhoeddus wrth ei annog ei ymwneud â phrentisiaethau modern. Cynhaliwyd cyfarfodydd rhwng y Cynghorau Sgiliau Sector perthnasol a swyddogion y Cynulliad er mwyn nodi a dileu rhwystrau i gyfranogiad y sector cyhoeddus. Mae'r cynllun peilot prentisiaethau a rennir llwyddiannus yn un model a allai fod yn berthnasol i rai cyrff yn y sector cyhoeddus, fel y bydd rhywfaint o hyblygrwydd y prentisiaethau newydd ar gael yn y dirywiad economaidd.
.
**Goblygiadau Ariannol** – Dim. Tynnir unrhyw gostau ychwanegol o gyllidebau rhaglenni presennol.

**Cyngor Sgiliau Sector**
Mae'r Pwyllgor yn argymell:

4. O ystyried ein pryderon am allu'r Cynghorau Sgiliau Sector yng Nghymru, rydym yn argymell bod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn monitro perfformiad y Cynghorau Sgiliau Sector yn ofalus wrth iddynt gyflawni eu dyletswyddau o dan y Ddeddf unwaith y caiff y Mesur Gydsyniad Brenhinol, ac rydym yn gofyn iddi adrodd ar unrhyw bryderon i'r Pwyllgor hwn.

**Ymateb : Derbyn**

Rwy'n derbyn yr argymhelliad hwn. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cefnogi ymagwedd ‘Tîm Cymru’ tuag at ail-drwyddedu’r Cynghorau Sgiliau Sector yn gryf. Mae gan swyddogion y Cynulliad systemau ar waith eisoes i fonitro perfformiad Cynghorau Sgiliau Sector a thrwy Fwrdd Cyflogaeth a Sgiliau Cymru, mae ganddynt ddulliau ar waith i adrodd a rhoi sylwadau ar allu'r Cynghorau Sgiliau Sector i gyflwyno'r agenda yng Nghymru.

**Goblygiadau Ariannol –** Dim. Tynnir unrhyw gostau ychwanegol o gyllidebau rhaglenni presennol.

**Statws Cyflogedig**
Mae'r Pwyllgor yn argymell:

5. Nid ydym am gael rhwystrau a allai danseilio'r gydberthynas rhwng cyflogwyr a chyflogeion yn hyn o beth, felly rydym yn argymell bod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn gweithio gyda'r CBI a'r TUC a phawb sy'n cynrychioli buddiannau cyflogwyr a chyflogeion, er mwyn sicrhau y caiff statws cyflogwr ei gyflawni'n llwyddiannus ar gyfer prentisiaethau.

**Ymateb : Derbyn**

Rwy'n derbyn yr argymhelliad hwn. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru eisoes yn gweithio'n agos â'r CBI a'r TUC a bydd yn parhau i geisio'u cyfranogiad yn natblygiadau'r brentisiaeth fodern. Mae'r gofyniad ar gyfer statws cyflogedig eisoes yn bodoli ar gyfer Prentisiaethau Modern a byddwn yn parhau i ddyheu am statws cyflogedig cyffredinol ar gyfer Prentisiaid Modern Sylfaenol lle y bo'n bosibl. Bydd yr Uned Prentisiaeth newydd a'r Gwasanaeth Paru Gyrfaoedd yn allweddol iawn yn y broses o sicrhau'r nifer fwyaf o leoliadau cyflogedig ar gyfer Prentisiaethau Modern Sylfaenol.

**Goblygiadau Ariannol** – Dim. Tynnir unrhyw gostau ychwanegol o gyllidebau rhaglenni presennol.

**Rôl Llywodraeth Cynulliad Cymru**
O ran sefydlu'r Uned Prentisiaeth Fodern a'i rôl, mae'r Pwyllgor yn argymell:

6. Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru wahodd adolygiad gan gymheiriaid neu adolygiad annibynnol o ddulliau gweithredu'r uned hon o fewn blwyddyn i'w sefydlu.

**Ymateb : Derbyn**

Rwy'n derbyn yr argymhelliad hwn. Rôl yr Uned Brentisiaeth fydd gweithio gyda phartneriaid allweddol i hyrwyddo a chodi proffil y rhaglen brentisiaeth. Bydd yr Uned yn atgyfnerthu a chefnogi'r datblygiadau prentisiaeth drwy gydweithio â chyflogwyr, darparwyr dysgu a Gyrfa Cymru i hyrwyddo a chefnogi'r rhaglen brentisiaeth a helpu i baru darpar brentisiaid â chyfleoedd hyfforddi.

Bydd yr uned yn fan cyswllt i gyflogwyr sydd am gynnig prentisiaethau ac i ddarpar brentisiaid sy'n chwilio am leoedd prentisiaeth. Bydd yn datblygu ac yn hyrwyddo dulliau arloesol i sicrhau y bydd cyfleoedd lleoliadau ar gael i brentisiaid a gwasanaeth paru fydd yn paru darparu brentisiaid â chyflogwyr neu â chyfleoedd hyfforddi addas.  Bydd yn rhoi man cyswllt canolog i gyflogwyr sydd am gynnig prentisiaethau a threfniadau broceru er mwyn paru darpar brentisiaethau posibl gyda chyflogwyr, yn cynnwys y rhai a adleolwyd oherwydd y dirywiad economaidd.  Bydd y swyddogion sy'n gweithio yn yr Uned yn gyfrifol am gynnal cysylltiadau â llawer o sefydliadau mewnol ac allanol, yn arbennig gydag Adran yr Economi a Thrafnidiaeth, UKCES a'r Cynghorau Sgiliau Sector.

Gan y bydd yr Uned Prentisiaeth yn hanfodol yn y broses o gryfhau'r rhaglen brentisiaeth, ac yn arbennig i weithredu'r strategaethau prentisiaeth i gefnogi unigolion yn ystod y dirywiad economaidd, byddwn yn parhau i ddatblygu ac adolygu rôl a swyddogaethau'r Uned drwy gydol y cyfnod sefydlu a'i blwyddyn gyntaf o weithredu.

**Goblygiadau Ariannol** – Dim.  Tynnir unrhyw gostau ychwanegol o gyllidebau rhaglenni presennol.

**Y Broses Ddeddfwriaethol**

Mae gan y Pwyllgor bryderon yn ymwneud â'r broses ddeddfwriaethol ac mae'n argymell:

7. Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru fabwysiadu dull mwy strategol o lunio'r gyfraith, a fyddai'n ystyried y cyfleoedd a roddir gan bwerau llunio Mesurau a phwerau wedi'u dirprwyo ym Mesurau'r DU. Rydym yn argymell yn gryf ei bod yn mynd i'r afael â'r diffyg democrataidd a achosir gan wyro o'r gweithdrefnau deddfwriaethol arferol ar gyfer ymgorffori cymalau Cymreig ym Mesurau'r DU, lle nad oes llawer o gyfle os o gwbl i'w craffu ar hyn o bryd.

**Ymateb :  Gwrthod**

Mae gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ddull strategol ond pragmatig hefyd o lunio'r gyfraith sy'n sicrhau gwneud defnydd effeithiol o ddeddfwriaeth. Mae hyn yn cynnwys ystyried cyfleoedd ar gyfer cynnwys darpariaethau Cymreig ym Mesurau'r DU megis pwerau Mesur a phwerau wedi'u dirprwyo lle y bo'n briodol gwneud hynny.  O dan amgylchiadau megis y Mesur Prentisiaethau, Sgiliau, Plant a Dysgu, lle y mae deddfwriaeth y DU yn rhoi cyfleoedd i sicrhau cyffredinedd neu unffurfiaeth safonau ledled Cymru a Lloegr, a lle y mae hyn yn gyson â strategaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru, yna mae darpariaeth ddeuol ym Mesurau'r DU yn synhwyrol ac yn ddymunol.  Craffodd y Pwyllgor Menter a Dysgu y darpariaethau Cymreig perthnasol yn ei gyfarfodydd ar 8 Hydref 2008 a 12 Mawrth [2009].  Mater i'r Senedd yw craffu seneddol.

**Goblygiadau Ariannol** – Dim.